# Marchogaeth ceffylau rasio i wella eu perfformiad

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â marchogaeth ceffylau rasio i wella eu perfformiad.

Dylech fod yn gallu marchogaeth y ceffyl rasio ar bob cyflymder: cerdded, trotian, hanner carlamu a charlamu. Bydd angen i chi hefyd roi adborth ar berfformiad y ceffyl i'r person priodol a bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer marchogaeth ceffylau ffit, rhai nad ydynt yn ffit a cheffylau hawdd a cheffylau â phroblemau ymddygiad penodol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. marchogaeth ceffylau rasio ar bob cyflymder i wella eu perfformiad
3. hysbysu'r person priodol ynghylch y math o gyflymder sydd yn addas ar gyfer ceffylau rasio unigol
4. rhoi adborth ar berfformiad y ceffyl a thrafod cywirdeb eich adborth gyda'r person priodol
5. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y safle marchogaeth cywir ar gyfer marchogaeth ceffyl rasio
3. effaith ymarfer grwp ar rai ceffylau
4. anomaleddau posibl ceffylau rasio
5. effeithiau mynd ar geffylau rasio
6. cyflymderau a phellterau sydd yn angenrheidiol ar gyfer y math yma o weithgaredd
7. y gweithdrefnau ar gyfer marchogaeth ceffylau rasio ffit a rhai nad ydynt yn ffit
8. y gweithdrefnau ar gyfer marchogaeth ceffylau rasio hawdd a'r rheiny â phroblemau ymddygiad penodol
9. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Marchogaeth ar y cyflymder canlynol:

- cerdded
- trotian
- hanner carlamu
- carlamu

Marchogaeth ceffylau rasio i wella eu perfformiad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq314 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; perfformiad; marchogaeth |